# *CYNGOR CYMUNED LLANDYSUL COMMUNITY COUNCIL*

**Cofnodion Cyfarfod Misol Cyngor Cymuned Llandysul Community Council a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul a thrwy gyfrwng Zoom, ar 10fed Mehefin 2024**
**Minutes of Monthly Meeting of Cyngor Cymuned Llandysul Community Council held at Canolfan Ieuenctid Tysul Youth Centre, Llandysul and via Zoom, on 10th June 2024**

**Yn Bresennol/Present:**
Cynghorwyr/Councillors Beth Davies, Douglas Davies, Heddwen Davies, Keith Evans, Peter Evans, Elen Grantham, Gethin Jones, Sue Lloyd, Eifion Rees a Chynghorydd Sir De Llandysul/and County Councillor Llandysul South Keith Evans
**Ymddiheuriadau/Apologies** Cafwyd ymddiheuriadau gan / Apologies for absence were received from Eileen Curry, Mike Hotson a Chynghorydd Sir Gogledd Llandysul Troedyraur/and County Cllr Llandysul north Troedyraur Maldwyn Lewis

**Datgelu Buddiannau/Declarations of Interest**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau./No declarations of interest were given.

**Adroddiad/Report**

Cafwyd adroddiad gan PCSO Anwen Davies 8176, yn rhoi diweddariad am y Troseddau a'r Digwyddiadau yn ardal y Cyngor. / A report was received from PCSO Anwen Davies 8176 providing a Crime and Incident Update for the Councils area.
Isod, gweler rhestr o'r troseddau / digwyddiadau a adroddwyd yn wardiau tref Llandysul, Pontsiân a Chapel Dewi. / Below is a list of crimes / incidents that were reported within Llandysul town, Pontsian and Capel Dewi wards.
**Adroddiad Mai/May Report**
**Adroddwyd am 12 trosedd yn wardiau tref Llandysul, Pontsiân a Chapel Dewi / 12 crimes were reported in Llandysul town, Pontsian and Capel Dewi wards**

Trosedd-Aflonyddu/Crime-Harassment - 2
Y partïon yn adnabod ei gilydd / Parties known to each other
Trosedd – Domestig /– Domestics -1
Trosedd-Twyll-Crime-Fraud -3
1 adroddiad am drafodion banc amheus / 1 report of suspicious bank transactions
1 adroddiad am gyflawnwr twyll cludwr yn honni ei fod yn heddwas – ni chollwyd arian / 1 report of courier fraud perpetrator portraying as police – no money lost
1 adroddiad am alw diwahoddiad – ni chollwyd arian / 1 report of call calling – no money lost
Trosedd-Dwyn – Crime – Burglary – 5
1 adroddiad am fyrgleriaeth a thân yn Ysgol Dyffryn Teifi / 1 report of burglary a fire at Ysgol Dyffryn Teifi
4 adroddiad am fyrgleriaeth – aethpwyd ag offer pweredig ac offer gardd / 4 reports of burglary-Items taken power tools and garden equipment
Anifail-Animal – 1
1 adroddiad am gi yn poeni / 1 report of dog worrying
Gweithgarwch Amheus – 4 adroddiad / Suspicious Activity – 4 reports
1 adroddiad am arogl canabis / 1 report of smell of cannabis
3 adroddiad am becynnau amheus yn cael eu hatal yn y swyddfa bost / 3 reports of suspicious packages intercepted at the post office
Ymddygiad Gwrthgymdeithasol / Anti-Social Behaviour – 2

2 adroddiad am bobl ifanc yn creu aflonyddwch / 2 reports of youths causing a disturbance

Mae ymholiadau yn mynd rhagddynt mewn perthynas â'r byrgleriaethau a welwyd yn ddiweddar. Os oes gan unrhyw un unrhyw wybodaeth, dylent gysylltu â PCSO Anwen Davies neu ffonio 101. Penderfynwyd holi'r PCSO a oes modd iddi nodi ym mha wardiau y cyflawnwyd y troseddau. Yn ogystal, penderfynwyd holi a oes modd i gynrychiolaeth o'r heddlu fod yn bresennol yn y cyfarfodydd yn amlach. /
Ongoing enquiries are being carried out in relation to the recent burglaries. If anyone has any information to contact PCSO Anwen Davies of ring 101.
It was decided to ask the PCSO if it was possible that she could note which ward the crimes were from. It was also deceided to ask if it was possible for representation from the police to be present in the meetings more often.

**<u>Cofnodion/Minutes</u>**
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod misol a gynhaliwyd ar 20/05/24 ar ôl gwneud un newid dan Ward Pontsiân, sef mai twll yn y ffordd sydd ger Glan Cletwr, nid clawdd sydd wedi tyfu'n wyllt, ac mai swm y rhodd ar gyfer Hahav oedd £500, nid £50 fel y nodwyd. / Minutes of monthly meeting held on 20/05/24 were confirmed following changing that under Ponstian Ward that by Glan Cletwr was a pothole on the road not an overgrown hedge and under donations to Hahav the donation given was £500 and not £50 as noted.

| | |
|---|---|
| **Materion yn Codi: -**<br><br>**<u>Hysbysfyrddau maes parcio</u>**<br>Roedd y clerc wedi cael dyfynbris am ddisodli'r tu blaen Persbecs neu acrylig ar du blaen yr hysbysfwrdd ym Maes Parcio Llandysul gan ND Signs, am £425. Penderfynwyd archebu hwn.<br>**<u>Adolygiad posibl o derfyn cyflymder 20 milltir yr awr</u>**<br>Nodwyd bod rhai lleoliadau yn fannau y mae gofyn eu hadolygu, e.e. y darn rhwng Penlon Wen a Phentre Llwyn Gorrig.<br>Roedd etholwr wedi mynegi pryder ynghylch cerbydau sy'n goryrru ger eiddo ar y ffordd rhwng Croesffordd Rhydowen i gyfeiriad Capel Dewi ac roedd yn dymuno ymestyn y parth 20 milltir yr awr.<br>Atgoffwyd yr holl Gynghorwyr i fwrw golwg ar y parthau 20 milltir yr awr yn eu wardiau ac i fod yn barod i fynegi eu barn, fel y bydd modd rhoi adborth i'r Cyngor Sir er mwyn ymateb i unrhyw ymgynghoriad yn y dyfodol.<br>**<u>Nacro</u>**<br>Penderfynwyd y dylai'r clerc archebu byrddau hysbysebu newydd ar gyfer y Cyngor Cymuned, yn barod ar gyfer y digwyddiad ym mis Gorffennaf.<br>Gofynnodd y Cynghorwyr i'r Clerc ddarparu taflenni yn nodi dyletswyddau Cynghorwyr a gweithgareddau'r Cyngor.<br><br>**4) Ceisiadau Ariannol:**<br>Ni chafwyd unrhyw geisiadau ariannol.<br>**<u>Gohebiaeth</u>**<br>Cafwyd llythyr o ddiolch a gwerthfawrogiad am y rhoddion ariannol gan<br>Sioe Llandysul<br>Hahav<br>Tir Dewi<br><br>**5) Materion i'w Trafod**<br>**<u>Lle Chwarae i Blant Llandysul</u>**<br>Bydd y clerc yn archebu sbring newydd ar gyfer y gatiau i gerddwyr yn y lle chwarae, a bydd y rhain yn costio tua £490 + TAW fesul gât. Penderfynwyd gosod gât newydd yn lle'r gât sy'n mynd i'r maes parcio yn y lle cyntaf, er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio cyn archebu dau arall. | **Matters Arising: -**<br><br>**<u>Car park Noticeboards</u>**<br>The clerk had received a quotation for replacing the Perspex or acrylic front on the noticeboard in Llandysul Car Park Noticeboard from ND Signs for £425. It was decided to order the replacement.<br>**<u>Potential review of 20mph speed limit</u>**<br>Some locations had been identified as areas that required review,e.g. the stretch from Penlon Wen to Pentre Llwyn Gorrig<br>An elector had raised concern regarding speeding vehicles near property on the road from Rhydowen Crossroads heading towards Capeldewi and wished for the 20mph zone to be extended.<br>All Councillors were reminded to look at the 20 mph zones in their respective wards and to have their views ready, so that feedback could be provided to the County Council in response to any future consultation.<br>**<u>Nacro</u>**<br>It was decided that the clerk order to new pop-ups for the Community Council ready for the July event.<br>Councillors requested Clerk to provide leaflets indicating the duties of Councillors and the activities of Council.<br><br>**4) Funding Applications:**<br>There were no funding applications.<br>**<u>Correspondence</u>**<br>Letters of thanks and appreciation for the financial donations received were received from<br>Llandysul Show<br>Hahav<br>Tir Dewi<br><br>**5) Matters for Discussion**<br>**<u>Llandysul Children's Play area</u>**<br>The clerk to order a replacement spring for the pedestrian gates in the play area at a cost of circa £490 + Vat per gate. It was resolved to replace the gate leading |

| | |
|---|---|
| Adroddwyd bod sedd un o'r siglenni plant bach wedi torri. Estynnwyd ymddiheuriadau i'r plentyn ac i'r teulu. Bydd y clerc yn archebu 2 sedd newydd a dwy sedd newydd ar gyfer siglenni y plant hŷn.<br><br>**<u>Meinciau</u>**<br>Roedd meinciau wedi cael eu gosod yn y lle chwarae i blant yn Llandysul. Roedd y padiau concrid ar gyfer y meinciau yng Nghapel Dewi wedi cael eu gosod yn barod er mwyn lleoli'r meinciau. Bydd y clerc yn cysylltu â Rhodri Thomas ynghylch trwsio'r fainc ger y fynedfa i Ystad y Ffawydd.<br><br>**<u>Seddau Gwag Llandysul</u>**<br>Atgoffwyd yr holl Gynghorwyr gan y clerc o'r ffaith bod sedd wag yn Ward Tref Llandysul o hyd. Anogwyd yr aelodau i chwilio am ymgeiswyr addas.<br><br>**<u>Plannu</u>**<br>Bydd Cynghorydd Andrew Howell yn cysylltu â Farmyard i'w hysbysu bod y dysglau plannu yn barod i blannu planhigion ynddynt.<br>Nodwyd hefyd bod angen eu hatgoffa i blannu bylbiau cennin pedr yn y cafn ger y fynedfa i'r parc gan nad oedd y rhain wedi cael eu plannu yn ystod y gaeaf y llynedd.<br><br>**<u>Archwiliad</u>**<br>**<u>Archwilio Cymru –</u>** Datganiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/24. Yn ystod ei gyfarfod diwethaf, roedd y Cyngor wedi cymeradwyo'r cyfrifon i'w cynnwys yn y datganiad blynyddol.<br>**<u>Adran 1</u>** – Llofnodwyd <u>Datganiadau Cyfrifyddu</u> sef dadansoddiad o'r ffigurau a gymeradwywyd dan "10" uchod a'r <u>Dystysgrif cyn archwilio</u> gan y Clerc. Yn ogystal, llofnodwyd y <u>cadarnhad cyn archwilio</u> gan y Cadeirydd a'r Clerc. **<u>Adran 2</u>** – Penderfynwyd cymeradwyo'r <u>Datganiad Llywodraethu Blynyddol.</u> Mae hysbysiad i'r cyhoedd yn eu hysbysu o'r ffaith bod y cofnodion ar gael i'w harchwilio wedi cael ei arddangos. Mae'r Archwilydd Mewnol a'r Gwiriwr Mewnol wedi edrych dros y cyfrifon hefyd.<br><br>**<u>Materion Wardiau Brys</u>** | to the car park in the first instance, this to make sure that they work before ordering another two.<br>It was reported that one of the infant swing cradles had broken. Apologies were extended to the child and family. The clerk to order 2 new cradles and two swing seats for the older children swings.<br><br>**<u>Benches</u>**<br>Benches had been put in place in the Children's play-area in Llandysul. The concrete pads for the benches in Capel Dewi had been laid in readiness to locate the benches. The clerk to contact Rhodri Thomas about repairing the bench on the entrance of the Beeches Estate.<br><br>**<u>Llandysul Vacant Seats</u>**<br>The clerk reminded all Councillors that there was still a vacant seat in the Llandysul Town Ward. Members were encouraged to seek suitable candidates.<br><br>**<u>Planting</u>**<br>Cllr Andrew Howell to contact Farmyard to inform them that the planters are ready to be planted. It was also pointed out to remind them to plant daffodil bulbs in the trough by the entrance of the park as these had not been planted last winter.<br><br>**<u>Audit</u>**<br>**<u>Audit Wales –</u>** Annual Return form for the year ended 31/03/24. The Council at its last meeting had approved the accounts for inclusion in the annual return.<br>**<u>Section 1</u>** – <u>Accounting Statements</u> being a breakdown of the figures approved under "10" above and the <u>Certification prior to audit</u> was signed by the Clerk. Also, <u>confirmation prior to audit</u> was signed by the Chair and Clerk. **<u>Section 2</u>** – It was resolved to approve <u>The Annual Governance Statement.</u> Notice to the public informing that the records are available |

**Maesymeillion**
Adroddwyd bod twll mawr yn y ffordd ym Maesymeillion.
Bydd y clerc yn adrodd am hyn i'r Cyngor Sir ar ôl cael gwybod ei union leoliad gan yr aelod lleol.

**Gorrig, ffordd Aberteifi – Llanbedr Pont Steffan**
Mae angen sgubo'r ffordd y tu ôl i Dŷ Newydd, Gorrig ar fyrder.
Mae'r arwydd sy'n rhybuddio gyrwyr am groesffordd cyn croesffordd Gorrig wedi diflannu ac mae'r arwydd sy'n cynghori gyrwyr i yrru'n araf wedi cael ei droi o gwmpas ac mae'n wynebu i'r cyfeiriad anghywir.

**Horeb**
Er gwaethaf sawl cais am wasanaeth, nid yw'r goleuadau ar y bolardiau ar y groesffordd yn Horeb yn gweithio o hyd.

Bydd y clerc yn cysylltu â'r Cyngor Sir am bob mater.

**Llandysul**
Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â'r Cyngor Sir i weld a oes posibilrwydd o ymestyn y llinellau melyn dwbl yn Heol y Gilfach gan bod pobl yn parcio cerbydau yno ac mae hyn yn achosi perygl.

Penderfynwyd gofyn hefyd a fyddai modd defnyddio dull gostegu traffig ar hyd y ffordd waelod yn Llandysul gan nad oes nifer o bobl yn cadw at y terfyn cyflymder o 20 milltir yr awr.

Roedd aelod o'r cyhoedd wedi cwympo i mewn i'r afon yn Stryd Cambria yn ddiweddar. Penderfynwyd y dylai'r clerc ysgrifennu at y Cyngor Sir i holi a ydynt yn ymwybodol o'r manylion ynghylch perchnogaeth y safle. Roedd y perygl wedi arwain at unigolyn yn cwympo i mewn i'r afon ac roedd preswylydd lleol wedi gweithredu yn gyflym ac yn ddewr trwy neidio i mewn i'r afon ac achub yr unigolyn. Gwnaethpwyd penderfyniad unfrydol i ofyn

for inspection has been displayed. Internal Auditor and Internal Checker have also checked the accounts.

**Urgent Ward Matter**

**Maesymeillion**
It was reported that there is a large pothole in Maesymeillion.
The clerk to report this to the County Council after being provided by the local member of its exact location.

**Gorrig, Cardigan – Lampeter road**
The road behind Ty Newydd, Gorrig required sweeping urgently.
The advanced warning sign of cross road ahead for the Gorrig crossroads had disappeared and the slow advisory sign had been turned and was facing in the incorrect direction.

**Horeb**
The lights on the bollards at the crossroads in Horeb despite numerous requests for service were still not working.

Clerk to contact the County Council on all matters.

**Llandysul**
It was requested that the clerk contact the County Council to see if there was a possibility of extending the double yellow lines on Heol y Gilfach as parked vehicles are causing a hazard by parking there.

It was also decided to ask if there was a traffic calming method that could be used for bottom road in Llandysul as not many people were observing the 20mph speed limit.

A member of the public had recently fallen into the river in Cambrian Street. It was decided that the clerk contact the County Council to see if they were

| | |
|---|---|
| am enw yr unigolyn a oedd wedi achub yr aelod o'r cyhoedd erbyn cyfarfod y cyngor ym mis Gorffennaf, er mwyn iddynt gael Tarian y Gymuned am eu gweithred ddewr ac anhunanol.<br><br>Mae canghennau coed yn gorchuddio'r goleuadau ger y toiledau cyhoeddus ym maes parcio Llandysul. Gofynnwyd i'r clerc dynnu sylw y Cyngor Sir i'r mater.<br><br>Rhoddwyd caniatâd i Gynghorydd Keith Evans, mewn cysylltiad â'r Clerc, i brynu'r offer a'r peiriannau angenrheidiol er mwyn ailosod rhai o'r Goleuadau Nadolig ac i addasu'r baneri a'r gwifrau yn Lôn Wesley.<br><br>**Adroddiad gan Gynghorwyr Sir**<br>Cafwyd gohebiaeth mewn neges e-bost yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Cyngor am weithgareddau Cynghorydd Keith Evans ward De Llandysul yn ystod y cyfnod rhwng 14 Mai 2024 a 10 Mehefin 2024, ac fe'i nodwyd.<br><br>**Gohebiaeth**<br><br>Cafwyd Clerks and Councils Direct ac fe'i nodwyd.<br>Cafwyd catalog Gwanwyn 2024 Parkers.<br>**Carnifal Llandysul**<br>Cafwyd neges e-bost yn gofyn a fyddai modd troi'r Goleuadau Nadolig ymlaen yn ystod wythnos y carnifal, sef rhwng 30 Mehefin a 6 Gorffennaf 2024. Rhoddwyd caniatâd.<br><br>**Cynllunio**<br><br>Ni chafwyd unrhyw Geisiadau Cynllunio.<br><br>**Gwybodaeth Ariannol**<br><br>Llinos Jones – Ysgrifennwyd siec am y swm o £120.28 am y gwasanaeth cyfieithu ym mis Mai<br>Cyngor Sir Ceredigion – Cafwyd bil am y cyfraniad o £500 er mwyn gosod gwasanaeth Wi-Fi y Dref yn Llandysul ac ysgrifennwyd siec am y swm.<br>Cymdeithas Chwaraeon – Ysgrifennwyd siec am y swm o £5000 sef y swm a gytunwyd yn ystod cyfarfod blaenorol ar ôl eu llwyddiant | aware where ownership rests.<br>The hazard had resulted in an individual falling into the river and were it not for the swift action and bravery of a local resident who without hesitation jumped into the river and saved the individual. It was unanimously decided to invite Mr name to be provided that saved the member of the public to the meeting in July to receive a Community Shield for his brave and selfless act.<br><br>Tree branches are covering the lights by the public toilets in the Llandysul car park. The clerk was requested to bring the matter to the attention of the County Council.<br><br>Permission was granted to Cllr Keith Evans in liaison with the Clerk to purchase the necessary equipment and machinery in order to re-secure some of the Christmas Lights and modify the bunting and wires on Lon Wesley.<br><br>**Report by County Coucillors**<br>E-mail correspondence was received providing the Council with detailed information on Cllr Keith Evans Llandysul South wards' activities for the period 14 May 2024 to 10 June 2024 and noted.<br><br>**Correspondence**<br><br>Clerks and Councils Direct were received and noted.<br>Parkers Spring 2024 catalogue was received.<br>**Llandysul Carnival**<br>An email was received asking if the Christmas Lights could be turned on during carnival week from 30 June to 6 July 2024. Permission was granted.<br><br>**Planning**<br><br>No Planning Applications were received. |

| | |
|---|---|
| wrth sicrhau grant Cynnal y Cardi i wneud gwelliannau i’r pafiliwn chwaraeon. | **<u>Financial Information</u>**<br><br>Llinos Jones – Cheque for £120.28 was written for May translation<br>Ceredigion County Council – Bill was received for contribution of the installation of the Town Wi-Fi in Llandysul for £500 and a cheque was written for the said amount.<br>Cymdeithas Chwaraeon – A cheque was written for £5000 that was agreed in a previous meeting further to their success in obtaining a grant from Cynnal y Cardi for improvements to the sports pavilion. |

Arwyddo Sieciau/Signing of Cheques:

*Gorchmynnwyd ac i'w tynnu gan y Trysorydd/*
*Ordered and same are hereby drawn on the Treasurer:-*

| | | *£ c/£ p* | *Rhif siec Cheque number* |
|---|---|---|---|
| Ceredigion County Council | Town Wi-Fi | 500.00 | 001247 |
| Llinos Jones | Cyfieithu/Translating | 120.28 | 001248 |
| Cymdithas Chwaraeon | Rhodd/Donation | 5000.00 | 001249 |
| Nia Davies | Cyflog y Clerc | 577.40 | 001250 |
| HMRC | Cyflog y Clerc | 144.60 | 001251 |
| Nia Davies | Rhyngrwyd/Broadband | 113.97 | 001252 |